## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR ARCHWILIO**

**PWNC:** **PWYLLGOR ARCHWILIO - DYDD MAWRTH, 2 MAWRTH 2021 DYDD MAWRTH, 2 MAWRTH 2021**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL:

Cynghorwyr: S. Healy (Is-gadeirydd)
D. Davies
P. Baldwin
D. Hancock
J. Hill
W. Hodgins
J. Holt
J. Millard
J. C. Morgan
M. Moore
B. Summers
S. Thomas
L. Winnett
T. Edwards
M. Veale

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth ar hyn o bryd. | |
| **No. 2** | **CADEIRYDD** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedwyd fod y Cadeirydd, Mr. T. Edwards, yn cael anawsterau technegol a chytunwyd y byddai'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd S. Healy, yn cadeirio'r cyfarfod. | |
| **No. 3** | **<u>YMDDIHEURIADAU</u>**<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H. Trollope. | |
| **No. 4** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Adroddwyd y datganiadau buddiant dilynol:<br><br>Cynghorydd B. Summers – Eitem Rhif 7 Datganiad Cyfrifon 2019/10 (*Silent Valley Waste Services)*<br><br>Cynghorydd J. Hill – Eitem Rhif 7 Datganiad Cyfrifon 2019/20 (*Silent Valley Waste Services)* | |
| **No. 5** | **<u>PWYLLGOR ARCHWILIO</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar Chwefror 2021.<br><br>Dywedodd Aelod y dylid newid y ffigur a restrir ar dudalen 3 y cofnodion dan Eitem Rhif Dalen Weithredu i £8,200.<br><br>PENDERFYNWYD, gyda'r diwygiad uchod, i gadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 6** | **<u>DALEN WEITHREDU – 2 CHWEFROR 2021</u>**<br><br>Nid oedd unrhyw gamau gweithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2021. | |
| **No. 7** | **<u>ADRODDIAD CYNNYDD Y CYNLLUN ARCHWILIO – IONAWR I CHWEFROR 2021</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol.<br><br>Cyflwynodd yr Arweinydd Proffesiynol Archwilio Mewnol yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar gynnydd ar y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2021 i 28 Chwefror 2021. Dangosir gweithgareddau yn ystod y cyfnod yn Atodiad A yr adroddiad ac mae'r fformat yn dangos crynodeb o ganfyddiadau o | |

| | | |
|---|---|---|
| | adroddiadau archwilio a gynhyrchwyd yn y cyfnod, yn cynnwys barn archwilio ffurfiol lle'n briodol. Lle cafodd archwiliadau unigol eu graddio fel Sicrwydd Cyfyngedig neu Dim Sicrwydd, cyflwynwyd Adroddiad Cryno Archwiliad Mewnol yn Atodiad B.<br><br>Gofynnodd Aelod os yw'r Adran Archwilio ar y targed i gwblhau lefelau cwmpas archwilio digonol i ffurfio barn ar ddiwedd y flwyddyn.<br><br>Esboniodd y Swyddog fod yr adroddiad cynnydd a gyflwynwyd yn y cyfarfod diwethaf yn seiliedig ar waith dros gyfnod o 9 mis a bod yr Adran yn ôl ar y trywydd i gwblhau pob archwiliad ariannol ar gyfer diwedd Mawrth 2021.<br><br>Mewn ymateb i gwestiwn pellach, dywedodd y Swyddog y cafodd archwiliadau Dechrau'n Deg a SIMS Ysgolion eu gohirio oherwydd y cafodd gwasanaethau eu hailflaenoriaethu ond bwriedir symud ymlaen gyda nhw'n awr a gobeithir eu gorffen tua diwedd y flwyddyn. Yng nghyswllt yr Adolygiad Thematig, dywedodd y Swyddog fod hwn yn archwiliad peilot yn edrych ar systemau niferus mewn amrywiaeth o feysydd. Gan fod hwn yn faes newydd o waith, nid oes amserlen bendant i gwblhau'r archwiliad gan ei fod ynglŷn ag ymchwilio os y byddai'n ychwanegu gwerth ac yn osgoi dyblygu gwaith. Rhoddir adroddiad ar ganlyniadau'r cynllun peilot i gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.<br><br>Cyfeiriodd yr Aelod wedyn at Atodiad B Archwiliad Gofal Cymunedol a gofynnodd am eglurhad ar y crynodeb o ganfyddiadau.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod rhoi gofal cymunedol a mesurau rheoli mewnol yn gweithredu'n effeithlon. Mae mwyafrif y canfyddiadau yn dangos gwendidau yng nghyswllt prosesau sicrwydd ansawdd, fodd bynnag cafodd y rhain eu hailgynllunio'n awr fel canlyniad i'r archwiliad.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi'r canfyddiadau o fewn yr Atodiadau a cynnydd ar weithgareddau ar gyfer y cyfnod 1 Ionawr 2021 i 28 Chwefror 2021. | |
| **No. 8** | **<u>DATGANIAD CYFRIFON 2019/2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad yr Uwch Bartner Busnes Cyfrifeg Cyfalaf a Chorfforaethol. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Cytunwyd y dylai eitemau rhif 7 a 8 gael eu hystyried ar yr un pryd.<br><br>Cyflwynodd yr Uwch Bartner Busnes Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor ar gyfer 2019/20. Dywedodd y cafodd gwasanaethau hanfodol eu blaenoriaethu yn ystod camau cyntaf pandemig Covid 19 gyda staff yn cael eu symud i'r gwasanaethau hanfodol hynny i gefnogi ymateb y Cyngor. Fel canlyniad, cafodd cwblhau'r Datganiad Cyfrifon ei oedi gyda Llywodraeth Cymru yn argymell fod awdurdodau lleol yn paratoi eu drafft gyfrifon erbyn 31 Awst 2020 ac yn cyhoeddi cyfrifon archwiliedig terfynol erbyn 30 Tachwedd 2020.<br><br>Cafodd drafft Ddatganiad Cyfrifon y Cyngor ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio ar 29 Medi ac ers hynny dynodwyd nifer o addasiadau a chânt eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Fel sydd angen dan Adran 11 Rheoliadau 2014 ac Adran 29 Deddf 2004, bydd y Cyfrifon a dogfennau eraill ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio am 20 diwrnod gwaith o ddydd Llun 5 Hydref tan ddydd Gwener 30 Hydref 2020 cynhwysol a ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am wybodaeth neu archwilio yn ystod y cyfnod hwnnw.<br><br>Cadarnhaodd y Swyddog fod Archwilio Cymru bellach wedi cwblhau archwiliad ariannol manwl o'r Cyfrifon ac wedi paratoi ei Adroddiad Archwiliad Statudol o Gyfrifon (Safonau Rhyngwladol ar Archwilio neu adroddiad ISA 260), eitem rhif 8 ar yr agenda.<br><br>Rhagwelai'r Awdurdod dderbyn barn archwiliad diamod wedi'i lofnodi gan yr Archwilydd Penodedig. Ar y cam hwn, ni all Archwilio Cymru roi tystysgrif am gwblhau archwiliad ar gyfer 2019/2020, nes y caiff archwiliadau eu hardystio yng nghyswllt blynyddoedd ariannol blaenorol.<br><br>Daeth i ben drwy ddweud, os yw'r Pwyllgor Archwilio yn cytuno, y byddai'r Datganiad Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Prif Swyddog Adnoddau a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio.<br><br>Wedyn cyflwynodd Swyddog Archwilio Cymru adroddiad Archwiliad Cyfrifon Archwilio Cymru ar Gyngor Bwrdeistref Sirol 2019-20.<br><br>Dywedodd fod hwn yn gyffredinol yn adroddiad cadarnhaol a chadarnhaodd fod Archwilio Cymru yn bwriadu cyhoeddi barn | |

| | | |
|---|---|---|
| | archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni. Aeth yn sydyn drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Dywedodd na all Archwilwyr byth roi sicrwydd llwyr y caiff cyfrifon eu nodi'n gywir a'u bod yn hytrach yn gweithio i lefel o 'berthnasedd', a osodir i geisio dynodi ac unioni cam-ddatganiadau a allai fel arall achosi i ddefnyddiwr y cyfrifon gael eu camarwain, a'r lefel perthnasedd yw £2.66m ar gyfer archwiliad eleni. Fodd bynnag mae rhai rhannau o'r cyfrifon a all fod yn fwy pwysig i'r darllenydd, ac yn y cyswllt hwn gosodwyd lefel perthnasedd is ar eu cyfer h.y. tâl Uwch Swyddogion £1,000 a Phartïon Cysylltiedig £100,000.<br><br>Dywedodd Swyddog Archwilio Cymru y cafodd pandemig Covid effaith sylweddol ar bob agwedd o gymdeithas ac yn parhau i gael hynny ac mae hyn wedi arwain at i'r drafft gyfrifon cael eu cwblhau ar gyfer archwilio erbyn 23 Medi 2020, tua tri mis yn hwyrach na'r amserlen wreiddiol. Fodd bynnag, dywedodd fod Archwilio Cymru yn ddiolchgar i Dîm Cyllid y Cyngor am eu cefnogaeth yn ystod yr archwiliad.<br><br>Dywedodd fod y pandemig Covid wedi effeithio ar yr archwiliad ac y caiff y prif effeithiau eu crynhoi yn Eitem 1. Rhoddir hyn er gwybodaeth yn unig er mwyn helpu deall effaith y pandemig ar broses archwilio eleni.<br><br>Yn nhermau'r farn archwilio, dywedodd fod camddatganiadau dechreuol yn y drafft gyfrifon a gafodd eu cywiro gan reolwyr a chaiff y rhain eu dangos yn Atodiad 3.<br><br>Hefyd yn ystod yr archwiliad cafodd nifer o faterion yn ymwneud â'r cyfrifon eu hystyried a'u hadrodd fel materion perthnasol yn codi i'r Cyngor. Er y cydnabyddir effaith pandemig Covid a'r heriau a achosodd hyn ir Cyngor, mae'r angen am wella mewn meysydd allweddol yn parhau a chaiff yr argymhellion yng nghyswllt y materion hyn eu hamlinellu yn Atodiad 4. Cadarnhaodd fod rheolwyr wedi ymateb i'r argymhellion ac y byddir yn dilyn lan ar gynnydd arnynt yn ystod archwiliad y flwyddyn nesaf. Byddid yn parhau i fonitro unrhyw gamau gweithredu nas cyflawnwyd a rhoddir adroddiad arnynt yn adroddiad y flwyddyn nesaf.<br><br>Daeth Swyddog Archwilio Cymru i ben drwy ddweud y bwriedir barn archwilio ddiamod ar gyfer Cyfrifon eleni, fodd bynnag byddai'r Dystysgrif Cwblhau yn parhau ar agor oherwydd y gwaith | |

sy'n mynd rhagddo yng nghyswllt Silent Valley. Fodd bynnag, dywedodd y cafodd y gwaith hwn ei gwblhau a bod y drafft adroddiad allan er ymgynghoriad gyda'r unigolion a nodir yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd Aelod at adran 3.3 y Cyfrifon lle mae'n dweud fod y Cyngor wedi gwneud penderfyniad mewn egwyddor i drosglwyddo Silent Valley yn ôl i'r Cyngor, a gofynnodd pa effaith y byddai hyn yn ei gael ar gyfrifon y Cyngor.

Esboniodd Swyddog Archwilio Cymru na fyddai'r gwaith cyfredol gyda Silent Valley yn cael unrhyw effaith ar y cyfrifon a gyflwynir i'r Pwyllgor Archwilio.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Adnoddau fod yr adroddiad y mae Archwilio Cymru yn cyfeirio ato yn ymwneud â'r ymchwiliad cyfredol i'r berthynas rhwng Silent Valley Waste Services a'r Cyngor ac nad yw'n gysylltiedig gydag unrhyw waith a wneir yn fewnol o amgylch gweithrediadau'r dyfodol yn Silent Valley.

Gofynnodd Aelod os cafodd y cyllid ychwanegol ar gyfer cronfeydd wrth gefn ei gynnwys yn y papurau cyllideb a gyflwynwyd ar gyfer ystyriaeth y Cydbwyllgor Craffu a'r Cyngor ddydd Iau 4 Mawrth.

Mewn ymateb, esboniodd y Prif Swyddog Adnoddau mai dim ond yn ddiweddar y cwblhawyd yr addasiadau. Mae'r papurau cyllideb a gyflwynwyd i'w hystyried gan y Cyngor yn cyfeirio at flwyddyn ariannol 2020/21 ac nid yw'n cyfeirio at wybodaeth benodol yn ymwneud â chronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae all-dro Chwarter 2 ar gyfer 2020/21 a lefelau cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi wedi cynyddu ers y rhagolwg.

Cyfeiriodd Aelod am yr ymchwiliad sy'n mynd rhagddo am Silent Valley a gofynnodd os yw'n bosibl i unigolyn geisio oedi cynnydd.

Mewn ymateb, dywedodd Swyddog Archwilio Cymru y gobeithiai na fyddai hynny'n digwydd, ond gall unigolion fod â phryderon dilys y byddai angen iddynt geisio cyngor arnynt. Dywedodd mai hyn oedd diben y broses gyfreithiol i roi sicrwydd i unigolion, a hefyd roi prawf rhesymolrwydd i ganfod os oedd cyfiawnhad am unrhyw oedi pellach.

Cyfeiriodd Aelod at effaith pandemig Covid a gofynnodd sut mae

| | | |
|---|---|---|
| | Blaenau Gwent yn cymharu gydag awdurdodau lleol eraill yn nhermau ansawdd ei gyfrifon ac os y gellid dysgu unrhyw wersi.<br><br>Mewn ymateb dywedodd Swyddog Archwilio Cymru mai Blaenau Gwent yw un o'r awdurdodau olaf i ddarparu ei gyfrifon ac mae argymhellion Archwilio Cymru yn awgrymu fod angen gwella ansawdd papurau gwaith. Fodd bynnag, dywedodd fod y cyfeiriad teithio'n ymddangos yn gadarnhaol a gwyddai y gwnaed penodiad yn ddiweddar a bod ymrwymiad gan y Cyngor i fynd ymlaen â hynny. Dywedodd hefyd fod y Cyngor wedi bod yn delio gydag ymholiadau dros y tair blynedd ddiwethaf a gafodd effaith, ac ar ôl ei gwblhau byddai'r Cyngor yn cael cyfle i symud ymlaen a gwella.<br><br>Wedyn cyfeiriodd yr Aelod at dudalen 54 y cyfrifon a dywedodd fod y ffigur ar gyfer pecynnau terfynu o £245k yn ymddangos yn uchel. Gofynnodd os oedd angen uchafswm ar becynnau terfynu ac os oes angen cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru am symiau a fedrai fod yn fawr.<br><br>Dywedodd y Prif Swyddog Adnoddau nad oedd unrhyw uchafsymiau mewn grym ar gyfer blwyddyn y Cyfrifon. fodd bynnag, byddid yn rhoi adroddiad i'r Cyngor ar gyfer cymeradwyaeth am unrhyw becynnau terfynu yn fwy na £100k. Ar gyfer 2021, a nes y bydd Llywodraeth Cymru yn dileu'r uchafswm o £95k, byddid wedi hysbysu Llywodraeth Cymru am unrhyw becyn terfynu dros y swm hwnnw ond nid oedd dim yn ystod y cyfnod hwnnw.<br><br>Wedyn gofynnodd yr Aelod am eglurhad ar Gydnabyddiaeth Ariannol Swyddogion a restrir yn nhabl 51 y Cyfrifon. Cadarnhaodd yr Uwch Bartner Busnes fod yr wybodaeth yn gywir.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad ac adroddiad yr Archwilydd Allanol, bod y Cyfrifon yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio dan awdurdod dirprwyedig y Cyngor. | |
| **No. 9** | **<u>ARCHWILIO CYMRU – ADRODDIAD ARCHWILIO CYFRIFON 2019-20 CBS BLAENAU GWENT</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilio Cymru.<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad. | |